

23/24

atebgroup.co.uk

Hunanwerthusiad Llywodraethu



Creu atebion
gwell o ran byw



Cynnwys

Diben y gwerthusiad	4
Trosolwg y Bwrdd	6
SR1 – Strategaeth a llywodraethu	8
SR2 – Rheoli risg	29
Crynodeb.....	42
Bywgraffiadau Aelodau'r Byrddau	47



EIN HYMRWYMIAD I CHI...

Ein nod bob amser fydd cyflawni'r...

**canlyniadau iawn mor effeithiol ag y gallwn
ar gyfer pobl a chymunedau'r gorllewin**

Diben y gwerthusiad hwn o lywodraethu

Diweddarodd Llywodraeth Cymru ei Fframwaith Rheoleiddiol ym mis Ionawr 2022. Mae'r Fframwaith yn seiliedig ar gyd-reoleiddio ac mae'n canolbwyntio ar naw safon perfformiad. Yn ystod 2022, cynhaliodd Llywodraeth Cymru Adolygiad Rheoleiddiol Pontio o'r graddau yr oeddem yn cydymffurfio â'r naw safon, ac roedd y canlyniad fel a ganlyn:

- **Llywodraethu** (gan gynnwys gwasanaethau i denantiaid): Cydymffurfio - Gwyrdd
- **Hyfywedd ariannol** Cydymffurfio - Gwyrdd

Mae'r dyfarniad llawn ar gael ar ein gwefan www.atebgroup.co.uk

Dyma'r naw safon reoleiddio:

- **SR1** - Mae gan y sefydliad drefniadau arwain a llywodraethu strategol effeithiol sy'n ei alluogi i gyflawni ei ddiben a bodloni ei amcanion.
- **SR2** - Mae trefniadau cadarn ar waith i reoli risg a rhoi sicrwydd.
- **SR3** - Darperir gwasanaethau o ansawdd uchel i denantiaid.
- **SR4** - Caiff tenantiaid eu grymuso a'u cefnogi i lywio a dylanwadu ar wasanaethau.
- **SR5** - Mae rhenti a thaliadau gwasanaeth yn fforddiadwy i denantiaid presennol a darpar denantiaid.
- **SR6** - Mae gan y sefydliad ddull strategol o ymdrin â gwerth am arian sy'n llywio ei holl gynlluniau a gweithgareddau.
- **SR7** - Mae'r cynllunio a'r rheolaeth ariannol yn gadarn ac yn effeithiol.
- **SR8** - Caiff asedau a rhwymedigaethau eu rheoli'n dda.
- **SR9** - Mae'r sefydliad yn darparu llety o ansawdd uchel.

Mae'r adolygiad hwn yn gwerthuso ansawdd trefniadau llywodraethu ein sefydliad trwy roi trosolwg o'n trefniadau llywodraethu a newidiadau a wnaed drwy gydol y flwyddyn, yn ogystal â dangos pa mor dda yr ydym yn cyflawni yng nghyswllt safonau rheoleiddio canlynol Llywodraeth Cymru:

- **SR1** - Mae gan y sefydliad drefniadau arwain a llywodraethu strategol effeithiol sy'n ei alluogi i gyflawni ei ddiben a bodloni ei amcanion.
- **SR2** - Mae trefniadau cadarn ar waith i reoli risg a rhoi sicrwydd.

Mae'r gwerthusiad o lywodraethu yn rhan o'r gyfres ganlynol o ddogfennau hunanwerthuso, y mae pob un ohonynt yn ymdrin â rhai o'r safonau, ac sydd gyda'i gilydd yn egluro sut yr ydym yn bodloni'r safonau rheoleiddio:

- **Llywodraethu** – SR1, SR2
- **Perfformiad** – SR3, SR4, SR5 a SR9
- **Ariannol** – SR6, SR7 a SR8
- **Cynllun Gwella**



Bydd y dogfennau uchod yn gwerthuso trefniadau llywodraethu ein sefydliad trwy ddangos...

- Sut y mae'r Bwrdd yn gwybod bod y sefydliad yn cydymffurfio â phob un o'r safonau rheoleiddio, a fydd yn cynnwys cyfeiriadau at ddata allweddol am berfformiad a ffynonellau sy'n rhoi sicrwydd
- Sut yr ydym yn cydymffurfio â'r Cod Llywodraethu y mae'r sefydliad wedi'i fabwysiadu
- Sut yr ydym wedi defnyddio'r brif dystiolaeth y dibynnwyd arni wrth gynnal y gwerthusiad
- Sut y mae'r broses werthuso wedi bod yn drwyadl
- Sut y mae anghenion a safbwyntiau tenantiaid wedi'u deall a'u hystyried yn rhan o'r hunanwerthusiad
- Sut yr ydym wedi nodi ein risgiau strategol allweddol a'r mesurau rheoli cysylltiedig, neu wedi cyfeirio at ddogfennau eraill lle caiff y risgiau allweddol eu disgrifio
- Bod ein cynllun gwella parhaus yn nodi unrhyw fylchau neu feysydd i'w gwella ac yn dangos sut yr eir i'r afael â'r rhain



Trosolwg o 23/24 o ran llywodraethu

Croeso i'n myfyrdod ynghylch ein perfformiad y llynedd ar sail y safonau rheoleiddio sy'n ymwneud â llywodraethu.

Blwyddyn brysur o ran llywodraethu

Cafodd camau gweithredu olaf Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) Llywodraeth Cymru eu cyflawni yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Mae'n deg dweud bod y ddeddfwriaeth honno wedi golygu newid sylweddol i hawliau cwsmeriaid a'r hyn sy'n ofynnol gan landlordiaid. Mae ateb, fel pob landlord yng Nghymru, wedi gorfod addasu'r ffordd y mae'n gweithredu er mwyn ymdrin â'r newidiadau.

Mae deall y Ddeddf yn llawn, ei gweithredu a chyflwyno atebion gweithredol wedi cymryd llawer o amser ac wedi costio llawer o arian. Mae'r Bwrdd, gweithgorau arbenigol, timau ateb a chriw ategol helaeth o fenthycwyr, ymgynghorwyr a chontractwyr sy'n bartneriaid i ni wedi gweithio'n galed i sicrhau bod cwsmeriaid yn cael y gwasanaeth y dylent ei ddisgwyl gennym, ac mae Grŵp ateb yn y sefyllfa orau o hyd i barhau i wella dros gyfnod o amser yr hyn a gynigir ganddo. Hoffwn ddiolch i bawb dan sylw am helpu Grŵp ateb i ymgorffori gofynion Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru).

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi cwrdd yn rheolaidd â'n rheolwr rheoleiddio i drafod sut y mae ateb yn perfformio ar sail ei rwymedigaethau o ran llywodraethu. Mae elfen o'r trafodaethau hynny'n canolbwyntio ar arolwg chwarterol a anfonir gennym at y tîm rheoleiddio, sy'n ymdrin ag amryw bynciau, o gydymffurfio i faterion ariannol. Mae perfformiad ateb wedi parhau'n gyson yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ond mae mwy o ffocws wedi bod ar rai meysydd.

Rydym wedi gweld newidiadau ym mhob un o'n Byrddau ac wedi gweld Pwyllgor newydd yn cael ei gyflwyno. Gwnaethom groesawu Neil i'r prif Fwrdd ac i'r Pwyllgor Sicrwydd. I gydnabod y maes arbenigol y mae risg fawr yn perthyn iddo, sef

adeiladu cartrefi newydd, sefydlodd y prif Fwrdd Pwyllgor Datblygu newydd i ymdrin ag anghenion ateb a Mill Bay Homes o ran llywodraethu. Mae Owen a Tim yn cadeirio'r elfennau hynny yn ateb a Mill Bay Homes, a'u nod yw lleihau'r bwlch rhwng gwaith dwy adain y sefydliad yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Mae'r Byrddau a'r Pwyllgorau i gyd yn dal i ganolbwyntio ar yr egwyddorion llywodraethu sy'n ymwneud â strategaeth, risg a pherfformiad. Mae ein Pwyllgor Sicrwydd wedi gorfod mynd i'r afael â sawl maes lle ceir risg gyfnewidiol, megis yr argyfwng costau byw, costau gweithredol, adroddiadau ariannol ac argaeledd cadwynau cyflenwi. Mae'r cyfan yn golygu bod y Pwyllgor a gweithgorau wedi gorfod parhau i ganolbwyntio ar broblemau posibl sy'n dod i'r amlwg, er mwyn sicrhau ein bod yn gweithredu i ddiogelu buddiannau ein cwsmeriaid a chapasiti'r Grŵp i berfformio. Yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, rydym yn gobeithio gweld mwy o sefydlogrwydd yn y sector tai yn gyffredinol, er mwyn galluogi ein systemau llywodraethu i ganolbwyntio ar gydnerthedd tymor hwy yn hytrach na'u bod yn gorfod ymdrin â phroblemau cyfredol.

Mae gennym rai newidiadau er gwell i'w gwneud yn ystod blwyddyn ariannol 24/25 er mwyn cynnwys cwsmeriaid ymhellach mewn penderfyniadau ac er mwyn sianelu sgiliau ein Byrddau a'n Pwyllgorau yn well. Rwy'n siŵr y bydd hynny'n ein gwneud yn fwy effeithiol yn y tymor hwy.

Fel bob amser, hoffwn ddiolch am ymdrech ddiflino pob un o aelodau ein Byrddau a'n Pwyllgorau, a thimau ateb, Mill Bay Homes a Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru sy'n eu cefnogi ac sy'n gwneud gwaith mor wych er lles ein cwsmeriaid.

David Birch

Cadeirydd ateb
Group Limited

SR1

Mae gan y sefydliad drefniadau arwain a llywodraethu strategol effeithiol sy'n ei alluogi i gyflawni ei ddiben a bodloni ei amcanion

Mae Grŵp ateb wedi datblygu Gweledigaeth ateb, sy'n arwain ein dull o fod gystal ag y gallwn fod. Mae'r Weledigaeth yn cynnwys yr adrannau canlynol:

Gweledigaeth ateb

- **#1 Diben**
Creu atebion gwell o ran byw
- **#2 DNA (Ein gwerthoedd)**
Ymddiriedaeth; Cydberthynas; Grymuso...
'Bod yn rhagweithiol'
- **#3 Cynllunio (Ein nodau strategol)**
Gwella gwasanaethau i gwsmeriaid;
Gwasanaethu mwy o gwsmeriaid; Gwella effeithiolrwydd ein busnes
- **#4 Cyflawni (Ein fframwaith cyflawni gweithredol)**
Y canlyniadau iawn i gwsmeriaid, mor effeithiol ag y gallwn
- **#5 Rhoi sicrwydd**
Deall risgiau; Defnyddio systemau rheoli i'w rheoli; Cynnal profion i weld a yw'r systemau rheoli'n gweithio
- **#6 Gwella**
Gwella yw ein gwaith o ddydd i ddydd





Strwythur y Grŵp

ateb Group Limited yw'r rhiant-sefydliad a'r busnes tai fforddiadwy a chymdeithasol. Mill Bay Homes Limited yw'r busnes datblygu eiddo, sy'n adeiladu cartrefi newydd i'w gwerthu. Mae Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru yn darparu gwasanaethau cymorth i gleientiaid hŷn, sy'n eu galluogi i barhau i fyw yn eu cartrefi eu hunain. Mae'r endid sy'n weddill yn strwythur y Grŵp yn gwmni nad yw'n weithredol ar hyn o bryd – Effective Building Solutions Limited.

ateb Creating better Living Solutions



West Wales Care and Repair
Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru

MILL BAY
HOMES

EBS

Strwythur y Byrddau

Mae'r Byrddau yn gyfrifol am sicrhau mai amcanion y Weledigaeth yw ffocws ein gwaith. Roedd ein Byrddau yn cynnwys yr Aelodau Bwrdd a'r Cyfarwyddwyr canlynol yn ystod blwyddyn ariannol 23/24:

Bwrdd Rheoli
ateb Group Limited

ateb

Creu atebion
gwell o ran byw

Gall Bwrdd y Grŵp gynnwys hyd at bymtheg o aelodau, sy'n cynnwys yr opsiwn i gael uchafswm o dri aelod cyfetholedig. Mae aelodau'r Bwrdd yn dod o ystod eang o gefndiroedd i greu set amrywiol o sgiliau. Prif rôl y Bwrdd yw canolbwyntio ar gyfeiriad strategol, twf, buddsoddi a risg. Mae'r Bwrdd yn cyfarfod yn ffurfiol ddeg gwaith y flwyddyn i drafod busnes arferol, ac yn cyfarfod ar adegau eraill i drafod materion strategol.

- **David Birch (Cadeirydd)**
Rheoli Eiddo a Chyfleusterau – yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat
- **Hugh Watchman**
Caffael a Rheoli Cadwynau Cyflenwi – yn y diwydiant trydan domestig, ond ar hyn o bryd mae'n rhedeg busnes lleol yn y sector hamdden
- **Owen Jones**
Cynllunio – Ymgynghorydd siartredig ym maes cynllunio gwlad a thref
- **Sharron Lusher**
Addysg Bellach – Cyn-bennaeth Coleg Sir Benfro
- **Jackie Leonard**
Tai a Chynnal a Chadw – Gweithiwr proffesiynol ym maes tai
- **Jade Francis**
Brocer/Rheolwr Morgeisi Annibynnol – Willcox Financial Limited
- **Anthony James**
Cyllid – Cyfrifyddu/Rheolaeth Ariannol, Llywodraeth Cymru
- **Nisha Harichandran**
Perchennog Busnes – cyfathrebu, profiad ym maes y gyfraith a llywodraethu, yn darparu atebion ar lefel weithredol a strategol
- **Julia Ashley**
Cyfarwyddwr Datblygu Busnes – strategaeth a risg, tai, datblygu a gofal
- **Chris Townsend**
Uwch-gyfarwyddwr Adnoddau Dynol – rheoli cyfleusterau a gwasanaethau cymorth
- **Neil Edwards**
Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid – y sector cyhoeddus/sector tai
- **Nick Hampshire**
Prif Weithredwr – Aelod cyfetholedig

Mae Cyfarwyddwyr Mill Bay Homes yn gyfarwyddwyr cofrestredig yn Nhŷ'r Cwmnïau. Mae'r Cadeirydd yn annibynnol ar y prif Fwrdd oherwydd rheoliadau Llywodraeth Cymru; caiff yr aelodau eu recriwtio oherwydd eu sgiliau a'u profiad yn ymwneud â datblygu tai i'w gwerthu. Prif rôl y Bwrdd yw canolbwyntio ar gyfeiriad strategol, twf, buddsoddi a risg. Mae'r Bwrdd yn cyfarfod yn ffurfiol bedair gwaith y flwyddyn i drafod busnes arferol, ac yn cyfarfod ar adegau eraill i drafod materion strategol.

- **Mike Westerman**
(Cadeirydd annibynnol) – Marchnata
– Ymgynghorydd ym maes codi arian,
sy'n arbenigo yn y sector dielw
- **Nick Christofides**
Gweithiwr proffesiynol ym maes eiddo
a pherchennog busnes – Datblygu
eiddo a gwerthu tai
- **Andrea Gardner**
Ymgynghorydd Gwerthu – Datblygu
eiddo a gwerthu tai
- **Nick Hampshire**
Prif Weithredwr – ateb Group Limited
- **Tim Richens**
Rheolwr Gyfarwyddwr – Datblygu ac
adeiladu
- **Alex Jenkins**
Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid –
ateb Group Limited

Bwrdd Rheoli Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru (West Wales Care & Repair Limited)



West Wales Care and Repair
Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru

Gall Bwrdd Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru gynnwys hyd at bymtheg o aelodau. Mae aelodau'r Bwrdd yn dod yn bennaf o'r gymuned, y sector iechyd, y sector datblygu mentrau lleol a'r trydydd sector. Prif rôl y Bwrdd yw canolbwyntio ar gyfeiriad strategol, twf, buddsoddi a risg. Mae'r Bwrdd yn cyfarfod yn ffurfiol bedair gwaith y flwyddyn i drafod busnes arferol, ac yn cyfarfod ar adegau eraill i drafod materion strategol.

- **Elaine Lorton**
Iechyd (Cadeirydd) – Cyfarwyddwr
Gwasanaeth ym Mwrdd Iechyd
Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- **Cyngh Matthew Vaux**
Cyngor Sir Ceredigion – Ward
Ceinewydd a Llanllwchaearn
- **Hugh Watchman**
Penodwyd gan y rhiant-Fwrdd
- **Avril Wilson**
Cyn-Gyfarwyddwr Gweithredol Iechyd
a Gofal Cymdeithasol yn West Sussex
- **Jackie Leonard**
Penodwyd gan y rhiant-Fwrdd
- **Luke Lenton**
Rheolwr Cwynion ym Mwrdd Iechyd
Hywel Dda
- **Cyngh Hugh Hughes**
Cyngor Sir Ceredigion – Ward y Borth

Caiff Bwrdd y Grŵp gymorth gan bwyllgorau sydd â chyfrifoldebau penodol a ddirprwywyd.

Dyma'r pwyllgorau sydd wedi'u sefydlu ac sy'n darparu cymorth:

Y Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth Ariannol

Pwyllgor ad hoc sy'n gyfrifol am bolisi ynghylch cydnabyddiaeth ariannol a thelerau ac amodau cyflogaeth, yn ogystal â materion sy'n ymwneud â chwynion cyflogaeth ac apeliadau cysylltiedig. Dyma'r aelodau:

- **Chris Townsend**
(Cadeirydd) – aelod o Fwrdd ateb
- **Hugh Watchman**
Aelod o Fwrdd ateb
- **Sharron Lusher**
Aelod o Fwrdd ateb

Y Pwyllgor Sicrwydd

Mae'n gyfrifol am bennu ac adolygu'r fframwaith sicrwydd, sy'n cynnwys penodi archwilyr mewnol, llunio cynllun archwilio mewnol a threfnu gwasanaethau archwilio allanol. Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn i adolygu a rhoi prawf ar b'un a allwn fod yn sicr ein bod yn gwireddu Gweledigaeth ateb. Mae'r fframwaith yn cynnwys y risgiau a fydd yn ein hatal rhag cyflawni ein Gweledigaeth, y systemau rheoli sy'n rheoli neu'n lliniaru'r risgiau hynny, a'r profion y byddwn yn eu cynnal ar y systemau rheoli i sicrhau eu bod yn gweithredu fel y dylent. Mae'r Pwyllgor Sicrwydd yn adrodd i'r rhiant-Fwrdd ac mae'n cynnwys yr aelodau canlynol:

- **Sharron Lusher**
(Cadeirydd) – aelod o Fwrdd ateb
- **Hugh Watchman**
Aelod o Fwrdd ateb
- **Neil Edwards**
Aelod cyfetholedig o Fwrdd ateb
- **Owen Jones**
Aelod o Fwrdd ateb
- **Mike Westerman**
Aelod o Fwrdd Mill Bay Homes
- **Anthony James**
Aelod o Fwrdd ateb
- **Avril Wilson**
Aelod o Fwrdd Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru

Newidiodd ein strwythur o ran pwyllgorau yn ystod 23/24. Cytunodd Bwrdd ateb a Bwrdd Mill Bay Homes y byddai cael Pwyllgor Datblygu newydd sy'n goruchwyllo holl dir a gweithgareddau adeiladu a gwerthu'r Grŵp yn fanteisiol i wireddu dyheadau'r Grŵp yn y dyfodol o ran adeiladu tai.

Mae'r pwyllgor wedi cyfuno sgiliau aelodau o Fwrdd ateb a Bwrdd Mill Bay Homes er mwyn goruchwyllo swyddogaethau'r Grŵp ym maes datblygu gan gynnwys ei feysydd gwasanaeth sy'n ymwneud â thir, adeiladu a gwerthu, ac er mwyn symud strategaeth ddatblygu'r Grŵp yn ei blaen. Mae'r strategaeth ddatblygu'n darparu fframwaith i'r Pwyllgor Datblygu gynnig y rhaglen ddatblygu barhaus, cytuno arni a'i monitro. Bydd y pwyllgor yn craffu ar y swyddogaeth ddatblygu a'r cynigion ac yn gwneud argymhellion i Fwrdd ateb er mwyn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir gan y Grŵp.

Mae'r Pwyllgor Datblygu yn adrodd i'r rhiant-Fwrdd, sef Bwrdd ateb, ac i Fwrdd Mill Bay Homes ac mae'n cynnwys yr aelodau canlynol:

- **Owen Jones**
Aelod o Fwrdd ateb (Cadeirydd)
- **Tim Richens**
Rheolwr Gyfarwyddwr – Datblygu ac adeiladu
- **Andrea Gardner**
Aelod o Fwrdd Mill Bay Homes
- **Nick Hampshire**
Prif Weithredwr – ateb Group Limited
- **Alex Jenkins**
Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid – ateb Group Limited



Newidiadau i'r Byrddau a'r Pwyllgorau ar ddiwedd blwyddyn ariannol 23/24

Cafodd y newidiadau canlynol eu gwneud yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf:

YMDDEOLIADAU	RECRIWTIO
ateb Group Limited ● Chris Townsend Ymrwymïadau gwaith	ateb Group Limited ● Neil Edwards Wedi'i gyfethol ym mis Tachwedd 2023
Mill Bay Homes ● Mike Westerman Diwedd tymhorau gyda'r Grŵp – wedi gwasanaethu am 9 mlynedd fel aelod ● Nick Christofides Ymrwymïadau gwaith	
Y Pwyllgor Sicrwydd ● Mike Westerman Wedi ymddeol ● Anthony James Ymrwymïadau gwaith ● Owen Jones Yn canolbwyntio ar y Pwyllgor Datblygu newydd	Y Pwyllgor Sicrwydd ● Neil Edwards Ionawr 2024



Cydnabyddiaeth ariannol i'r Byrddau

Mae Bwrdd y Grŵp wedi cymryd y penderfyniad ynghylch egwyddor i roi cydnabyddiaeth ariannol i Aelodau Bwrdd Grŵp ateb a Chyfarwyddwyr Mill Bay Homes. Nid yw Aelodau Bwrdd Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru yn cael cydnabyddiaeth ariannol oherwydd natur busnes y corff a'r cyllid/grantiau y mae'n eu cael.

Dyma'r gydnabyddiaeth ariannol a roddwyd i'r Byrddau yn ystod 2023/24:

ateb Group Limited	Ymrwymiad o ran amser (Orau)	Cydnabyddiaeth ariannol
Aelod o'r Bwrdd	92.5	£2,960
Lwfansau ychwanegol		
Cadeirydd y Bwrdd	20	£640
Aelod o'r Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth Ariannol	6	£192
Aelod o'r Pwyllgor Sicrwydd	24	£768
MBH Limited		
Aelod o'r Bwrdd	27	£2,000
Cadeirydd y Bwrdd	34	£2,500

Mae pob Aelod Bwrdd/Cyfarwyddwr sy'n cael cydnabyddiaeth ariannol yn ymrwymo i Weithred Gytuno ar gyfer Gwasanaethau, sy'n egluro eu rhwymedigaethau yn gyfnewid am dâl am eu hamser.

Rydym wedi ymrwymo o hyd i wella amrywiaeth yn ein Byrddau, ond rydym yn cydnabod bod yn rhaid mai'r prif ofyniad bob amser yw sgiliau a chymwyseddau.



Y Tîm Gweithredol

Caiff y Tîm Rheoli Gweithredol gymorth gan yr Uwch Dîm Rheoli:

- **Nick Hampshire**
Prif Weithredwr (2017)
- **Mark Lewis**
Cyfarwyddwr Gweithredol Cwsmeriaid (2018)
- **Alex Jenkins**
Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid (2020)
- **Will Lloyd Davies**
Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu (2020)



Ysgrifennydd y Cwmni

I'r Byrddau i gyd:

- **Ceri Morgan**
Ysgrifennydd y Cwmni
- **Alex Jenkins**
Is-ysgrifennydd y Cwmni

Statws cyfreithiol a newidiadau i'r Fframwaith Llywodraethu

Dyma grynodedb o'r prif newidiadau yn ystod blwyddyn ariannol 23/24:

- **Mabwysiadodd Byrddau'r Grŵp God Llywodraethu Cartrefi Cymunedol Cymru 2021**

Fframwaith cyfansoddiadol

Mae gan Grŵp ateb fframwaith cyfansoddiadol sy'n disgrifio'r strwythur llywodraethu ac sy'n cynnwys dogfennau llywodraethu allweddol ar gyfer y Grŵp. Mae gan bob endid ei gylch gorchwyl ei hun ynghyd â dogfennau rheoli eraill i sicrhau bod ein trefniadau llywodraethu'n parhau yn effeithiol. Yn ogystal â'r Byrddau a'r Pwyllgorau a ddisgrifir uchod, mae'r fframwaith yn cynnwys y canlynol:

Grŵp Arwain	Aelodau gweithredol ac uwch-aelodau sy'n cyfarfod bob chwarter i adolygu materion strategol a materion ym maes arwain a llywodraethu, sy'n adrodd i'r Byrddau
Tîm Adolygu Busnes	Aelodau gweithredol, uwch-aelodau ac aelodau timau sy'n cyfarfod bob mis i adolygu perfformiad, risg a chynlluniau gwella ymhlith materion eraill ym maes rheoli gweithredol
Tîm Sicrwydd	Uwch-reolwyr, dan gadeiryddiaeth y Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol, sy'n cyfarfod bob chwarter i adolygu 16 risg strategol y Grŵp a risgiau gweithredol cysylltiedig. Mae'n adrodd i'r Tîm Adolygu Busnes a'r Pwyllgor Sicrwydd
Tîm Diogelwch	Aelodau timau sy'n cyfarfod bob mis i adolygu ein perfformiad a'n cynlluniau gwella ym maes diogelwch. Caiff y Tîm Diogelwch ei gadeirio gan y Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol ac mae'n adrodd i'r Tîm Adolygu Busnes, pob Bwrdd a'r Pwyllgor Sicrwydd
Fforwm Cwsmeriaid	Grŵp o gynrychiolwyr cwsmeriaid, sy'n cyfarfod bob mis i adolygu materion ym maes llywodraethu, perfformiad a gweithgarwch Ymgysylltu i Wella
Ymgysylltu i Wella	Blaenoriaethau gwella a arweinir gan gwsmeriaid. Maent yn cyfarfod tua 10 gwaith y flwyddyn i bennu anghenion cwsmeriaid o ran gwelliannau, eu monitro a'u hadolygu
Cynnwys i Wella	Fforwm timau sy'n cyfarfod ag uwch-reolwyr tua chwe gwaith y flwyddyn i ddeall anghenion timau o ran gwelliannau, eu monitro a'u hadolygu
Cyfarfodydd Tîm Cyfarwyddiaethau	Ystod o gyfarfodydd tîm sy'n ymwneud â rheoli, cyflawni a meysydd gwasanaeth, ar draws y pedair Cyfarwyddiaeth, er mwyn sicrhau cyfathrebu dwy ffordd rhwng cyfeiriad strategol a'r galw gan gwsmeriaid/bodlonrwydd cwsmeriaid

Cynllunio strategol

Rydym wedi cwblhau ail flwyddyn ein strategaeth 3 blynedd gyfredol. Mae ein hadroddiad ar wahân, sef Cynllun Gwella 23/24, yn ystyried sut y gwnaethom berfformio ar sail ein hamcanion ym mlwyddyn 2. Dyma ein crynodeb gweithredol o alldro'r strategaeth:

Blwyddyn ariannol 23/24 oedd ail flwyddyn ein strategaeth 3 blynedd, a'r nodau strategol oedd:

- **Gwella gwasanaethau i gwsmeriaid**
- **Gwasanaethu mwy o bobl**
- **Gwella effeithiolrwydd ein busnes**

Arweiniodd yr amgylchedd gweithredu yn ystod blwyddyn ariannol 23/24 at bwysau parhaus a oedd yn ymwneud â chyflwyno deddfwriaeth a safonau newydd yn y sector; heriau wrth recriwtio pobl i swyddi, a effeithiodd yn fawr ar ein timau o grefftwyr; heriau datblygu a oedd yn ymwneud â chostau cadwynau cyflenwi a chystadleuaeth am dir; a heriau rheoli trysorlys a oedd yn ymwneud â mireinio ein cyfamodau a sicrhau y gallwn fuddsoddi'r cyfalaf sy'n ofynnol yn ein stoc.

Er gwaetha'r cyd-destun hwn, mae ein tîm wedi parhau i gyflawni gwelliannau a oedd yn canolbwyntio ar ein hamcanion, sef:

- **Rheoliadau newydd**
- **Fforddiadwyedd**
- **Datgarboneiddio**
- **Cydweithio**
- **Systemau mwy slic**

Mae ein timau wedi cyflwyno dros 40 o welliannau sydd i'w dathlu. Mae manylion y gwelliannau i'w gweld yn ein hadroddiad ynghylch Cynnydd o ran Gwella ar gyfer blwyddyn ariannol 23/24.



Llywodraethu o ran ymgysylltu â chwsmeriaid

Mae'r Bwrdd yn adolygu data ynghylch perfformiad timau sy'n ymdrin yn uniongyrchol â chwsmeriaid, ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd. Mae Ymgysylltu i Wella yn darparu meysydd i'w gwella drwy gydol y flwyddyn, ar sail eu blaenoriaethau ar ôl bod yn rhyngweithio â chwsmeriaid. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Ymgysylltu i Wella wedi cyflawni'r gweithgareddau canlynol:

- **Ebrill – Mai 23**
Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
- **Gorffennaf – Awst 23**
Yr Adolygiad Ymgysylltu Blynyddol
- **Hydref – Tachwedd 23**
Cost Rhent a Thaliadau Gwasanaeth
- **Rhagfyr 23 – Chwefror 24**
Arolwg STAR (arolwg y sector o fodlonrwydd tenantiaid)

Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Blwyddyn ariannol 23/24 oedd blwyddyn gyntaf ein hymrwymiad 3 blynedd i wella arferion ym maes cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar draws y Grŵp ac i fod yn gynhwysol gyda'r canlynol:

- **Ein cwsmeriaid a'n cymunedau**
- **Ein pobl**
- **Ein partneriaid**

Yn ystod blwyddyn ariannol 23/24, rydym wedi cwblhau pob un o'r 12 cam gweithredu a bennwyd gennym ar ein cyfer ein hunain i'w cyflawni yn ystod 23/24, a gwelwyd canlyniadau cadarnhaol ar draws ein harferion ym maes recriwtio, llywodraethu a chaffael a'n gwasanaethau i gwsmeriaid.

Mae cyfansoddiad ein Byrddau fel a ganlyn:



O'r 11 aelod, mae 6 yn ddynion a 5 yn fenywod. Mae 10 yn ystyried eu bod yn bobl Wyn Prydeinig ac mae un yn ystyried ei fod/bod yn Asiaidd. Mae 10 o'n haelodau rhwng 30 a 64 oed ac mae 1 aelod dros 65 oed.



O'r 6 aelod, mae 5 yn ddynion ac 1 yn fenyw. Mae pob un o'r 6 aelod yn ystyried eu bod yn bobl Wyn Prydeinig. Mae 5 o'r 6 aelod rhwng 45 a 64 oed ac mae 1 aelod dros 65 oed.



O'r 7 aelod, mae 4 yn ddynion a 3 yn fenywod. Mae pob un o'r 7 aelod yn ystyried eu bod yn bobl Wyn Prydeinig. Mae pob un ohonynt rhwng 45 a 64 oed.

Cod llywodraethu

Mae'r Grŵp yn defnyddio'r codau llywodraethu canlynol:

- **ateb Group Limited**
Cod Llywodraethu
Cartrefi Cymunedol
Cymru 2021
- **Mill Bay Homes**
Cod Llywodraethu
Cartrefi Cymunedol
Cymru 2021
- **Gofal a Thrwsio
Gorllewin Cymru**
Cod Llywodraethu Cartrefi
Cymunedol Cymru 2021

Asesiad o arweinyddiaeth strategol effeithiol

Credwn fod yr uchod yn dangos bod gennym drefniadau arwain a llywodraethu strategol effeithiol ar draws y Grŵp.

Yn ystod blwyddyn ariannol 23/24, cytunodd Bwrdd ateb ar fformat newydd ar gyfer cyfarfodydd, sy'n cynnwys adolygiadau strategol â ffocws ac sy'n cynnwys rhngweithio ac ymgysylltu â chwsmeriaid a thimau. Felly, newidiodd calendr y Bwrdd o 10 o gyfarfodydd ffurfiol y flwyddyn i saith cyfarfod a thair sesiwn strategol. Yn ogystal, ffurfiolodd y Bwrdd Adolygiad Blynnyddol y Grŵp er mwyn dod â holl Fyrddau'r Grŵp ynghyd i adolygu cyflawniadau ar y cyd a'r heriau sydd i ddod.

Nodwch y canlynol:

Cyfarfodydd Bwrdd Grŵp ateb	7
Sesiynau strategol Grŵp ateb	3
Cyfarfodydd Bwrdd Mill Bay Homes	4
Cyfarfodydd Bwrdd Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru	4
Diwrnod Bwrdd a Thîm Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru	1
Cyfarfodydd y Pwyllgor Sicrwydd	4
Cyfarfodydd y Pwyllgor Datblygu	1*
Cyfarfodydd y Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth Ariannol	1
Adolygiad y Grŵp	1
Cyfarfodydd Cyffredinol Blynnyddol (ar draws y Grŵp)	2

Caiff y canlynol eu hystyried ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd:

- Data ynghylch perfformiad
- Materion yn ymwneud ag iechyd a diogelwch
- Adroddiadau ynghylch fframweithiau'r is-gwmnïau – Byrddau'r is-gwmnïau
- Adborth gan y Fforwm Cwsmeriaid / Ymgysylltu i Wella, os yw ar gael

O dro i dro, bydd y Bwrdd yn ystyried y canlynol:

- Cynnydd ariannol
- Cynnydd o ran strategaethau/gwelliannau
- Risg
- Adolygiadau polisi
- Eitemau sydd i'w penderfynu gan y Bwrdd

* Dechreuwyd yn ystod blwyddyn ariannol 23/24. O hyn ymlaen cynhelir 4 cyfarfod y flwyddyn.

Pileri'r codau llywodraethu

Rydym yn cydymffurfio â'r Cod Llywodraethu y mae pob sefydliad wedi'i fabwysiadu. Mae'r pileri canlynol yn perthyn i'n codau:

1 Pwrpas y sefydliad

Mae'r Bwrdd yn deall nodau'r sefydliad ac mae'n sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni'n effeithiol ac mewn modd cynaliadwy.

2 Arwain

Caiff pob sefydliad ei arwain gan Fwrdd effeithiol sy'n darparu arweinyddiaeth strategol yn unol â nodau a gwerthoedd y sefydliad.

3 Uniondeb

Mae'r Bwrdd yn gweithredu gydag uniondeb, gan fabwysiadu gwerthoedd a chreu diwylliant sy'n helpu i gyflawni dibenion y sefydliad. Mae'r Bwrdd yn ymwybodol o bwysigrwydd hyder ac ymddiriedaeth y cyhoedd, ac mae aelodau'r Bwrdd yn ymgymryd â'u dyletswyddau'n unol â hynny.

4 Gwneud penderfyniadau, risg a rheolaeth

Mae'r Bwrdd yn sicrhau bod ei brosesau gwneud penderfyniadau wedi'u seilio ar wybodaeth a'u bod yn drwyadl ac yn amserol, ac mae'n sicrhau bod systemau effeithiol ar gyfer dirprwyo, cynnal rheolaeth, ac asesu a rheoli risg yn cael eu sefydlu a'u monitro.

5 Effeithiolrwydd y Bwrdd

Mae'r Bwrdd yn gweithio fel tîm effeithiol gan ddefnyddio'r cydbwysedd priodol o sgiliau, profiad, cefndiroedd a gwybodaeth i wneud penderfyniadau deallus.

6 Amrywiaeth

Mae dull y Bwrdd o ymdrin ag amrywiaeth yn hybu ei effeithiolrwydd, ei arweinyddiaeth a'i brosesau gwneud penderfyniadau.

7 Bod yn agored ac yn atebol

Mae'r Bwrdd yn arwain y sefydliad o safbwynt bod yn dryloyw ac yn atebol. Mae'r sefydliad yn gweithio'n agored oni bai bod rheswm da iddo beidio â bod yn agored.

Mae'r cod wedi'i ymgorffori yn y Weithred Gytuno ar gyfer Gwasanaethau, y mae Aelodau ein Byrddau yn ymrwymo iddi, a chaiff ei adolygu'n rhan o broses arfarnu ein Byrddau. Mae Gweledigaeth ateb yn cyfleu hanfod y cod ac yn ymgorffori ei egwyddorion yn ein cynlluniau strategol a gweithredol.

Cod Llywodraethu Cartrefi Cymunedol Cymru

“Saith egwyddor sy'n ffurfio'r Cod hwn. Mae'r saith egwyddor hyn yn cymryd yn ganiataol bod sefydliad yn cyflawni ei gyfrifoldebau cyfreithiol a rheoleiddiol fel sylfaen.”



Proses hunanwerthuso drwyadi

Mae'r Pwyllgor Sicrwydd yn adolygu ym mhob cyfarfod ein statws parhaus o ran cydymffurfio â'r safonau rheoleiddio, gan ystyried ein hadroddiadau ynghylch sicrwydd, ein cynnydd o ran y cynllun gwella rheoleiddiol, a'r ymateb i arolygon rheoleiddiol.

Mae gan y Byrddau a'r Pwyllgor Sicrwydd fynediad llawn i brosesau archwilio a dilysu mewnol, er mwyn rhoi prawf ar b'un a yw'r safonau rheoleiddio'n cael eu bodloni.

O ran pob un o'r safonau a gaiff eu hadolygu yn ystod ein proses hunanwerthuso:

1	Mae'r Bwrdd yn gwybod bod y sefydliad yn cydymffurfio â phob un o'r safonau rheoleiddio, a fydd yn cynnwys cyfeiriadau at ddata allweddol am berfformiad a ffynonellau sy'n rhoi sicrwydd	Mae adroddiadau'r Pwyllgor Sicrwydd yn cyfrannu i broses asesu'r Bwrdd, ac mae'r Bwrdd yn ystyried y data a'r wybodaeth sy'n ymwneud â phob safon er mwyn asesu a yw'r Grŵp yn bodloni'r safon.
2	Rydym yn cydymffurfio â'r Cod Llywodraethu y mae'r sefydliad wedi'i fabwysiadu	Mae'r Cod Llywodraethu a gymeradwywyd wedi'i ymgorffori yn y Weithred Gytuno ar gyfer Gwasanaethau, y mae ein Byrddau yn ymrwymo iddi, ac wedi'i ymgorffori ym mhroses arfarnu ein Byrddau. Cafodd y cod ei ddefnyddio i lywio Gweledigaeth ateb, sy'n darparu'r fframwaith ar gyfer cynlluniau a gwaith cyflawni strategol a gweithredol y Grŵp. Mae ein fframwaith o ran cyfansoddiad a pholisi yn atgyfnerthu'r cod ar draws y Grŵp. Mae'r hunanwerthusiad hwn yn dangos y gofyniad hwn.
3	Rydym wedi defnyddio'r brif dystiolaeth y dibynnwyd arni wrth gynnal y gwerthusiad	Mae'r Grŵp wedi datblygu set gynhwysfawr o systemau rheoli, dogfennau, trefniadau monitro ac adrodd a thystiolaeth i'n galluogi i ddod i'r casgliadau y daethom iddynt yn ein datganiadau hunanwerthuso. Mae ein hunanwerthusiadau ar gyfer Llywodraethu a Pherfformiad a'n hunanwerthusiad Ariannol yn dangos y gofyniad hwn.

4	Mae'r broses werthuso wedi bod yn drwyadl	Credwn ein bod wedi dangos asesiad amlhaenog o'r safonau rheoleiddio gan ddefnyddio sawl ffynhonnell ddata, o amryw safbwyntiau, er mwyn dod i gasgliadau mewn modd trwyadl ar sail cyfnodau ar draws y flwyddyn ac ar draws ein pedair Cyfarwyddiaeth. Mae ein hunanwerthusiadau ar gyfer Llywodraethu a Pherfformiad a'n hunanwerthusiad Ariannol yn dangos y gofyniad hwn.
5	Mae anghenion a safbwyntiau tenantiaid wedi'u deall a'u hystyried yn rhan o'r hunanwerthusiad	Fel y mae ein hunanwerthusiadau'n dangos, rydym wedi gofyn am farn ein cwsmeriaid ac am adborth ganddynt, rydym wedi deall a defnyddio'r farn a'r adborth dan sylw ac rydym wedi blaenoriaethu gwelliannau er mwyn pennu cyfeiriad ein Grŵp a'r modd y caiff ein gwasanaethau eu datblygu. Yn benodol, mae ein hunanwerthusiadau ar gyfer Llywodraethu a Pherfformiad yn dangos y gofyniad hwn.
6	Rydym wedi nodi ein risgiau strategol allweddol a'r mesurau rheoli cysylltiedig, neu wedi cyfeirio at ddogfennau eraill lle caiff y risgiau allweddol eu disgrifio	Mae ein Pwyllgor Sicrwydd a'n Tîm Sicrwydd yn monitro risgiau strategol a gweithredol o feysydd ar draws y Grŵp drwy gydol y flwyddyn, ac yn adrodd i'r Bwrdd yn eu cylch, gan ddefnyddio fframwaith y Bwrdd ar gyfer parodrwydd i dderbyn risg. Rydym yn defnyddio'r broses hon i gadarnhau ein bod wedi gwerthuso'r safonau yn drwyadl. Mae'r hunanwerthusiad hwn yn dangos y gofyniad hwn.
7	Ceir cynllun gwella parhaus sy'n nodi unrhyw fylchau neu feysydd i'w gwella ac sy'n dangos sut yr eir i'r afael â'r rhain (mae hwn yn disodli'r Cynllun Sicrwydd Rheoleiddiol)	Mae #6 Gwella yn rhan o Weledigaeth ateb. Yn ystod blwyddyn ariannol 23/24, gwnaethom dros 40 o welliannau er mwyn gwella gwasanaethau i gwsmeriaid, gwasanaethu mwy o bobl a gwella effeithiolrwydd ein busnes. Gweler yr Adroddiad ynghylch Cynnydd o ran Gwella ar gyfer 23/24.

Crynodeb

Mae Byrddau ateb yn credu bod ganddynt fframwaith priodol ar gyfer trefniadau arwain a llywodraethu strategol effeithiol, a bod ein hunanwerthusiadau'n dangos ei effeithiolrwydd. Credwn fod ein hunanwerthusiadau wedi'u cynnal yn unol â gofynion y Rheoleiddiwr, a'u bod yn adlewyrchu sut yr ydym yn bodloni'r naw safon reoleiddio a'r saith gofyniad sy'n dangos bod hunanwerthusiad trwyadl wedi digwydd.





■ SR1 – BLWYDDYN ARIANNOL 23/24

GWIRIO'R GWERTHUSIAD

“Mae gan y sefydliad drefniadau arwain a llywodraethu strategol effeithiol sy'n ei alluogi i gyflawni ei ddiben a bodloni ei amcanion”

Rydym wedi llunio'r gwerthusiad canlynol:

Mae ein Bwrdd wedi adolygu ein dadansoddiad a'n tystiolaeth ac mae o'r farn ein bod yn cydymffurfio â'r safon hon ar gyfer perfformiad.

	Gwirio'r Gwerthusiad	Mae'r Bwrdd:
1	A yw'r Bwrdd yn gwybod ei fod yn cyrraedd y safon hon	Wedi dod i'r casgliad, drwy Weledigaeth Grŵp ateb a'r chwe dogfen graidd sy'n ei hategu, ein bod wedi datblygu fframwaith strategol cynhwysfawr sy'n canolbwyntio ar sut beth yw da i Grŵp ateb (ateb, Mill Bay Homes, Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru). Yn ganolog iddo y mae ein diben, sef creu atebion gwell o ran byw ar gyfer pobl a chymunedau'r gorllewin, drwy sicrhau ein bod yn cyflawni'r canlyniadau iawn i gwsmeriaid, mor effeithiol ag y gallwn. Yna, rydym yn cysylltu ein bwriad strategol â'n gwaith cyflawni gweithredol drwy ddefnyddio ein hegwyddorion rheoli canlyniadau i gwsmeriaid yng nghyswllt ein 38 o feysydd gwasanaeth mewnol ac allanol. Rydym yn defnyddio ein fframwaith rhoi sicrwydd i benderfynu a ydym yn rheoli ein risgiau strategol yn effeithiol. Bob blwyddyn, rydym yn ceisio gwella gwasanaethau i gwsmeriaid; gwasanaethu mwy o bobl a gwella effeithiolrwydd ein busnes.
2	A yw'r Grŵp yn cydymffurfio â'i god llywodraethu	Wedi dod i'r casgliad ei fod yn gwneud hynny. Credwn fod yr hunanwerthusiad hwn ar gyfer llywodraethu'n dangos ein bod yn cydymffurfio. Mae ein cod wedi'i ymgorffori ym mhob rhan o'n fframwaith llywodraethu, a chaiff ei ddefnyddio bob blwyddyn i arfarnu perfformiad ac effeithiolrwydd ein Bwrdd. Rydym yn cynnal adolygiad allanol bob 3 blynedd o'n heffeithiolrwydd ar sail y cod, drwy ymarfer adolygu trefniadau llywodraethu. Cafodd ein hadolygiad diwethaf ei gynnal yn ystod blwyddyn ariannol 23/24, a chafwyd adroddiad cadarnhaol a oedd yn nodi meysydd cryf a meysydd lle gallwn wella.

Beth oedd y brif dystiolaeth a ddefnyddiwyd i werthuso'r safon hon

Wedi dod i'r casgliad bod y canlynol yn tystio i'r safon hon:

- Gweledigaeth ateb – Diben; DNA; Cynllunio; Cyflawni; Rhoi sicrwydd; Gwella
- Adolygiad Allanol o Effeithiolrwydd Llywodraethu Blwyddyn Ariannol 23/24
- Cynllun Olyniaeth a matrices sgiliau'r Byrddau
- Y Weithred Gytuno ar gyfer Gwasanaethau
- Proses arfarnu'r Byrddau
- Proses recriwtio'r Byrddau
- Y fframwaith cyfansoddiadol
- Papurau'r Byrddau/Pwyllgorau a phrosesau llywodraethu cysylltiedig
- Hysbysiadau Diweddarau'r Rheoleiddiwr
- Y fframwaith polisi – yn enwedig o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant; adborth gan gwsmeriaid; aelodaeth y Byrddau
- Y rhaglen o weithgarwch archwilio mewnol a'r farn flynyddol
- Yr ymatebion i arolygon Llywodraeth Cymru – ynghylch amrywiaeth; perfformiad
- Data a gwybodaeth am berfformiad
- Arolygon ynghylch DNA a llesiant



4	A yw'r broses werthuso wedi bod yn drwyadl?	Wedi dod i'r casgliad iddi fod yn drwyadl. Mae'r hunanwerthusiad hwn ar gyfer llywodraethu'n dangos ein bod yn cydymffurfio. Mae gennym ystod o systemau a ddefnyddir gennym drwy gydol y flwyddyn i benderfynu a ydym yn herio'n gadarn y modd yr ydym yn bodloni'r safonau, ac i nodi'r camau gwella iawn.
5	A gafodd anghenion a safbwyntiau tenantiaid eu hystyried?	Wedi dod i'r casgliad iddynt gael eu hystyried. Mae'r hunanwerthusiad hwn ar gyfer llywodraethu'n dangos ein bod yn cydymffurfio. Rydym wedi creu ystod o gyfleoedd i'n cwsmeriaid arwain agenda'r Grŵp ar gyfer gwella, er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ganolbwyntio ar ganlyniadau i gwsmeriaid bob amser. Rydym wedi cynllunio gwelliannau yn ystod blwyddyn ariannol 24/25 i gynnwys ein cwsmeriaid yn uniongyrchol yn y broses werthuso.
6	A gafodd y risgiau strategol eu deall?	Wedi dod i'r casgliad iddynt gael eu deall. Mae'r hunanwerthusiad hwn ar gyfer llywodraethu'n dangos ein bod yn cydymffurfio. Mae ein fframwaith rhoi sicrwydd yn pennu'r templed priodol er mwyn i'r busnes arfarnu, deall a rheoli ei risgiau'n strategol ac yn weithredol. Mae ein fframwaith wedi'i alinio â Gweledigaeth ateb, sy'n egluro sut beth yw da i ateb, ac mae ein mesurau rheoli risg yn sicrhau ein bod yn ein diogelu ein hunain rhag digwyddiadau a allai effeithio ar ein gallu i wireddu ein Gweledigaeth.
7	A oes Cynllun Gwella ar gael?	Oes, ac yn ystod blwyddyn ariannol 24/25 byddwn yn canolbwyntio ar y canlynol:: • sefydlu prosesau a chysylltiadau clir rhwng llais cwsmeriaid a phenderfyniadau strategol • gweithredu blwyddyn 2 ein Hymrwymiad i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a'n Cynllun Cyflawni ar ei gyfer



■ SR2

Mae trefniadau cadarn ar waith i reoli risg a rhoi sicrwydd

Mae adran 5 Gweledigaeth ateb yn disgrifio ein fframwaith rhoi sicrwydd. Gan ddefnyddio ein parodrwydd i dderbyn risg, mae ein Byrddau yn rheoli ein risgiau strategol drwy gyfres o systemau rheoli ac mae ein timau cyflawni yn rheoli risgiau gweithredol ar draws eu meysydd gwasanaeth.

Parodrwydd i dderbyn risg

Mae'r Grŵp wedi mabwysiadu'r parodrwydd canlynol i dderbyn risg:

Cydymffurfio	Nid ydym yn barod o gwbl i fynd ati'n fwriadol i dorri unrhyw reolau neu reoliadau wrth gyflawni ein busnes
Ariannol	Byddwn yn derbyn risg ariannol, ar yr amod bod manteision gwneud y penderfyniad yn gymesur â'n diben/nodau, bod mesurau rheoli/cynlluniau clir ar waith i reoli/l liniaru risg ariannol barhaus, ac nad yw'r penderfyniad yn mynd yn groes i'r lwfansau diogelwch a gytunwyd gan y Bwrdd yng nghyswllt penderfyniadau ariannol ac nad yw'n effeithio yn andwyol ar y cynllun busnes a'r gyllideb a gytunwyd
Enw da	Byddwn yn derbyn effaith ar ein henw da, ar yr amod bod yr effaith honno'n para am gyfnod cyfyngedig, ei bod yn cael ei rheoli, ei bod yn ymylol neu'i bod yn gyffredinol yn gymesur â manteision gwneud y penderfyniad
Perfformiad	Byddwn yn derbyn effaith ar ein perfformiad, ar yr amod bod yr effaith honno'n para am gyfnod cyfyngedig, ei bod yn cael ei rheoli, ei bod yn ymylol neu'i bod yn gyffredinol yn gymesur â manteision gwneud y penderfyniad ac na fydd hynny, o ganlyniad, yn effeithio'n ddjarwybod ar unrhyw gynnig arall a gytunir neu a gynllunnir

Risgiau strategol a mesurau rheoli

Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Sicrwydd yn gweithio gyda'r Grŵp i fonitro a rheoli'r 16 risg strategol ganlynol:

1	Disgwyliadau cwsmeriaid: Rydym yn methu â chyflawni diben y Grŵp i'r cwsmeriaid a'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu
2	Statws fel cyflogwr: Rydym yn methu â denu a chadw'r aelodau cywir o dimau a'r partneriaid cywir mewn cadwynau cyflenwi
3	Rheoli buddsoddi: Rydym yn methu â gwneud a gweithredu'r penderfyniadau cywir am fuddsoddi
4	Rheoli trysorlys: Rydym yn methu â rheoli ein buddsoddiadau trysorlys yn effeithiol
5	Rheoli costau gweithredol: Rydym yn methu â rheoli ein costau gweithredol yn effeithiol
6	Rheoli incwm: Rydym yn methu â rheoli ein ffrydiau incwm yn effeithiol
7	Rheoli ymgysylltu: Rydym yn methu ag ymdrin â phroblemau ein cwsmeriaid a'n cymunedau yn effeithiol
8	Ansawdd gwasanaethau: Rydym yn methu â darparu'r lefelau cywir o wasanaeth neu gynnyrch
9	Cydymffurfio o ran iechyd a diogelwch: Rydym yn methu â bodloni gofynion deddfwriaeth a rheoliadau sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch
10	Cydymffurfio fel cyflogwr/landlord: Rydym yn methu â bodloni gofynion deddfwriaeth a rheoliadau sy'n ymwneud â chyflogwyr a landlordiaid
11	Fframwaith Rheoleiddiol: Rydym yn methu â gweithredu'n unol â'n Fframwaith Rheoleiddiol
12	Cyfamodau benthycwyr: Rydym yn methu â rheoli cyfamodau ein benthycwyr yn effeithiol
13	Cydymffurfio â chontractau: Rydym yn methu â chyflawni'r hyn sy'n ofynnol gennym dan gontract
14	Llywodraethu: Rydym yn methu â llywodraethu'n effeithiol a gwneud penderfyniadau effeithiol ar draws y Grŵp
15	Rheoli perfformiad: Rydym yn methu â deall ein perfformiad
16	Rheoli gwelliant: Rydym yn methu â chyflawni gwelliant effeithiol

Mae ein fframwaith rheoli strategol yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Y gyfraith
- Rheoliadau
- Rheolau cwmnïau/llywodraethu
- Trefniadau allweddol dan gontract
- Dogfennau strategol
- Cynlluniau strategol
- Polisiâu
- Cylch gwaith

Map gwres ar gyfer risgiau strategol

Ddiwedd mis Mawrth 2024, roedd ein map gwres ar gyfer risgiau strategol fel a ganlyn:

CYDYMFFURFIO		ARIANNOL	
RS/09 Cydymffurfio o ran iechyd a diogelwch	RS/10 Cydymffurfio fel cyflogwr/landlord	RS/03 Rheoli buddsoddi	RS/14 Rheoli trysorlys
RS/11 Fframwaith Rheoleiddiol	RS/12 Cyfamodau benthycwyr	RS/05 Rheoli costau gweithredol	RS/06 Rheoli incwm
RS/13 Cydymffurfio â chontractau	RS/14 Llywodraethu	RS/01 Disgwyliadau cwsmeriaid	RS/02 Statws fel cyflogwr
RS/15 Rheoli perfformiad	RS/16 Rheoli gwelliant	RS/07 Rheoli ymgysylltu	RS/08 Ansawdd gwasanaethau
PERFFORMIAD		ENW DA	

Statws risg	Disgrifiad
Wedi digwydd	Mae'r risg wedi digwydd
Uchel	Mae'r risg yn debygol iawn o ddigwydd
Uwch	Mae'r risg yn fwy tebygol o ddigwydd
Normal	Ystyrir bod y tebygolrwydd y bydd y risg yn digwydd yn normal
Perthnasedd isel	Mae'n bosibl nad yw'r risg yn berthnasol mwyach
Diangen	Dylai'r risg gael ei dileu neu'i had-drefnu

Ar ddiwedd chwarter 4, roedd statws 10 o'n 16 risg strategol yn uwch na'r hyn sy'n normal ac roedd statws wyth wedi codi i 'Uwch' a statws dwy wedi codi i 'Uchel'. Arweiniodd y broses o weithredu Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) yn llawn at heriau i'r sector cartrefi rhent yn ystod chwarter olaf y flwyddyn, a allai effeithio ar farn archwilio allanol. Er y parheir i ddeall y sefyllfa honno'n well, rydym yn hyderus y bydd ein camau lliniaru ynghyd â chynigion Llywodraeth Cymru a threfniadau cydweithio rhwng cymdeithasau tai i ddatrys yr heriau hynny'n golygu y bydd risgiau'n llai yn y flwyddyn ariannol newydd.

Mae'r prif risgiau sydd wedi bod yn heriau parhaus drwy gydol y flwyddyn yn ymwneud â'r canlynol:

1	Recriwtio a chadw staff. Effeithiodd hynny'n bennaf ar ein timau o grefftwyr, ac roedd prinder crefftwyr yn golygu ei bod yn anodd recriwtio a chadw aelodau o'n timau mewnol a sicrhau cymorth gan gontractwyr allanol. Arweiniodd hynny'n anochel at berfformiad gwaeth wrth ddarparu gwasanaethau mewn rhai meysydd allweddol i gwsmeriaid, megis ym maes gwaith atgyweirio adweithiol.
2	Mwy o ymwybyddiaeth o ymosodiadau seiber ac o'r angen i gryfhau ein systemau rheoli diogelwch digidol.
3	Heriau rheoli trysorlys a oedd yn ymwneud â mireinio ein cyfamodau a sicrhau y gallwn fuddsoddi'r cyfalaf sy'n ofynnol yn unol â'n cynlluniau busnes.
4	Buddsoddi mewn rheoli asedau, a'r data mwy helaeth sy'n ofynnol i fuddsoddi cyfalaf yn unol â safonau tai newydd.
5	Casglu incwm a symud un cwsmer o bob tri i strwythurau newydd ar gyfer budd-daliadau (credyd cynhwysol).
6	Heriau datblygu a oedd yn ymwneud â chostau cadwynau cyflenwi a chystadleuaeth am dir.
7	Iechyd a diogelwch a chydymffurfio â newidiadau mewn deddfwriaeth mewn meysydd allweddol yn ymwneud â diogelwch landlord.

Drwy gydol y flwyddyn, buodd ein Pwyllgor Sicrwydd yn adolygu'r mesurau rheoli risg a oedd yn ymwneud â'r risgiau uwch/uchel ac yn adolygu unrhyw weithgareddau archwilio a gynhaliwyd, a chytunodd ar gamau lliniaru i leihau effeithiau'r risgiau. Er gwaetha'r heriau uchod, roedd perfformiad y Grŵp yn dda fel y gwelir yn ein Hunanwerthusiad Perfformiad.





Risgiau gweithredol

Mewn modd sy'n gysylltiedig â'r risgiau strategol, mae ein timau cyflawni yn rheoli'r gwaith o adnabod a rheoli risgiau gweithredol ar sail pob un o'n 37 o feysydd gwasanaeth, ac yn adrodd ynghylch y gwaith hwnnw. Mae ein fframwaith rheoli gweithredol yn canolbwyntio ar b'un a yw'r materion dyddiol canlynol yn effeithio ar ein risgiau strategol:

- **Pobl**
e.e. lefelau adnoddau, bylchau o ran sgiliau, ac ati.
- **Adnoddau**
e.e. mae rhywbeth o'i le ar y seilwaith sy'n cynnal ein trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau.
- **Prosesau**
e.e. mae rhywbeth yn mynd o chwith neu ni chaiff ei ddeall.
- **Allanol**
e.e. mae rhywbeth y tu allan i'n Grŵp yn effeithio ar wasanaethau, a allai fod yn rhywbeth y gallwn ddylanwadu arno neu'i reoli, neu a allai fod fel arall hefyd.

Fel yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol, yn ystod blwyddyn ariannol 23/24 effeithiodd heriau o ran recriwtio a chadw staff ar waith cyflawni mewn llawer o feysydd gwasanaeth ar draws y Grŵp. Gwnaeth yr heriau hynny'n ogystal â'r angen i ddatblygu ein systemau a'r newidiadau mewn deddfwriaeth arwain at amgylchedd gweithredu anodd i'n gwasanaethau sy'n ymdrin yn uniongyrchol â chwsmeriaid ac i'n gwasanaethau cymorth corfforaethol. Caiff llawer o'r heriau hynny eu hadlewyrchu yn ein proffil risg strategol uchod, o ystyried effaith y rhain ar ein gallu i wireddu ein Gweledigaeth.

Rheoli risg – Fframwaith Grŵp ateb ar gyfer rhoi sicrwydd

Yn unol â Fframwaith Rheoleiddiol Llywodraeth Cymru, a'r cyhoeddiad 'Y Pethau Iawn' sy'n ei ategu, mae Grŵp ateb wedi datblygu dull o reoli sicrwydd.

Mae'r dull hwn o reoli sicrwydd yn gwneud yn siŵr ein bod yn gwireddu Gweledigaeth ateb, h.y. ein bod yn cyflawni ein diben; bod gennym y DNA iawn; bod gennym y cynllun hirdymor iawn; bod ein gwasanaethau'n cyflawni'r canlyniadau iawn i gwsmeriaid, mor effeithiol ag y gallwn; ein bod yn gweithredu o fewn ein terfynau gofynnol; a'n bod yn gwella.

- **Cam 1**

Pa risgiau strategol fydd yn ein hatal rhag gwireddu ein Gweledigaeth?

- **Cam 2**

Pa systemau rheoli strategol fydd yn ein helpu i reoli'r risgiau hynny, dylanwadu arnynt neu'u lleihau?

- **Cam 3**

Pa brofion y mae angen i ni eu cynnal i wybod bod y risgiau'n cael eu rheoli?

- **Cam 4**

Tystiolaeth ein bod wedi cynnal y profion a'n bod wedi ymateb i'w canlyniadau.

Bydd y Pwyllgor Sicrwydd yn pennu'r risg, y systemau rheoli a'r profion sy'n ofynnol i wireddu chwe adran y Weledigaeth, ac yna bydd yn cael adroddiadau bob chwarter i fonitro ein cynnydd.

Archwilio mewnol

Yn rhan o'n fframwaith rhoi sicrwydd, ac er mwyn bodloni safonau rheoleiddio, rydym yn cynnal rhaglen flynyddol o weithgarwch archwilio mewnol.

Cafodd Gwasanaethau Archwilio Mewnol Mazars eu penodi i gynnal ein rhaglen o weithgarwch archwilio mewnol ar gyfer blwyddyn ariannol 23/24. Penodwyd Mazars yn Archwilwyr Mewnol i ni ar gyfer blwyddyn ariannol 24/25, sef blwyddyn olaf contract 5 mlynedd y cwmni â'r Grŵp i ddarparu gwasanaethau archwilio mewnol.

Dyma grynodeb gweithredol o farn archwilio mewnol Mazars ar gyfer blwyddyn ariannol 23/24:

Ar sail ein gwaith archwilio mewnol, rydym o'r farn mai **Cymedrol** yw digonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol y fframwaith ar gyfer llywodraethu, rheoli risg, a rheolaeth.

Gwnaethom nodi rhai meysydd lle gellid gwella'r amgylchedd rheoli, e.e. gwnaethom argymhellion pwysig iawn yn rhan o'r archwiliad Rheoli Eiddo Gwag ac yng nghyswllt adolygiad yr archwiliad iechyd o Fesurau Rheoli Allweddol. O'r archwiliadau strategol a gynhaliwyd yn 2023/24, nodwyd nad oedd yna unrhyw adroddiadau lle'r oedd sicrwydd yn gyfyngedig neu lle cafodd argymhellion tyngedfennol eu nodi.

Cyfartaledd cyfradd gweithredu ateb ar draws y ddau archwiliad dilynol a gynhaliwyd yn 2023/24 oedd 82%.

Mae'r mater hwn a phob mater arall wedi'u trafod â'r tîm rheoli, yr ydym wedi gwneud sawl argymhellid iddo. Mae camau wedi neu wrthi'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â phob un ohonynt, fel y nodir yn ein hadroddiadau unigol.

Rheoli risg yn effeithiol ac asesu sicrwydd

Mae'r Grŵp wedi cyflawni'r gweithgareddau canlynol ym maes risg a sicrwydd yn ystod y flwyddyn:

- Cyfarfodydd un-i-un â'r Tîm Llywodraethu – Cyfarfodydd un-i-un bob chwarter â'r Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol er mwyn adolygu risgiau gweithredol a'r effeithiau ar y fframwaith sicrwydd strategol, cyn bod pob adroddiad rhoi sicrwydd yn cael ei gyflwyno i'r Tîm Sicrwydd a'r Pwyllgor Sicrwydd.
- Tîm Sicrwydd – 4 cyfarfod i adolygu'r 16 risg strategol
- Tîm Adolygu Busnes – Yn adolygu adroddiadau'r Tîm Sicrwydd
- Pwyllgor Sicrwydd – Yn adolygu'r fframwaith rhoi sicrwydd bob chwarter ac yn cynnig unrhyw gamau gweithredu
- Pob Bwrdd yn cael yr adroddiadau bob chwarter ynghylch sicrwydd
- Yr 16 risg strategol, eu systemau rheoli, a'r profion a gynhelir gennym i sicrhau eu bod yn gweithio, yn cael eu cofnodi a'u diweddarau mewn cofrestrau unigol mewn amgylchedd MS Teams pwrpasol
- Rydym yn ystyried digwyddiadau penodol sy'n achosi risg, a'u heffeithiau ar y Grŵp drwy gydol y flwyddyn, mewn Cofrestr Digwyddiadau sy'n Achosi Risg
- Mae gennym gynllun parhad busnes ynghyd â thempledi a chanllawiau gweithredu ar gyfer digwyddiadau penodol
- Mae gennym gynllun adfer ariannol a gaiff ei ddiweddarau bob blwyddyn

Mae'r Pwyllgor Sicrwydd wedi ystyried yr 16 risg strategol yn ei gyfarfodydd, fel a ganlyn:

Risgiau strategol		Ch1	Ch2	Ch3	Ch4
Cydymffurfio (12 adolygiad)	RS/09 - Cydymffurfio o ran iechyd a diogelwch: Rydym yn methu â bodloni gofynion deddfwriaeth a rheoliadau sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch	✓	✓	✓	✓
	RS/10 - Cydymffurfio fel cyflogwr/landlord: Rydym yn methu â bodloni gofynion deddfwriaeth a rheoliadau sy'n ymwneud â chyflogwyr a landlordiaid	✓		✓	
	RS/11 - Fframwaith Rheoleiddiol: Rydym yn methu â gweithredu'n unol â'n Fframwaith Rheoleiddiol		✓		✓
	RS/12 - Cyfamodau benthyccwyr: Rydym yn methu â rheoli cyfamodau ein benthyccwyr yn effeithiol	✓		✓	
	RS/13 - Cydymffurfio â chontractau: Rydym yn methu â chyflawni'r hyn sy'n ofynnol gennym dan gontract		✓		
	RS/14 - Llywodraethu: Rydym yn methu â llywodraethu'n effeithiol a gwneud penderfyniadau effeithiol ar draws y Grŵp			✓	

Risgiau strategol		Ch1	Ch2	Ch3	Ch4
Ariannol (5 adolygiad)	RS/03 - Rheoli buddsoddi: Rydym yn methu â gwneud a gweithredu'r penderfyniadau cywir am fuddsoddi			✓	
	RS/04 - Rheoli trysorlys: Rydym yn methu â rheoli ein buddsoddiadau trysorlys yn effeithiol	✓			
	RS/05 - Rheoli costau gweithredol: Rydym yn methu â rheoli ein costau gweithredol yn effeithiol	✓		✓	
	RS/06 - Rheoli incwm: Rydym yn methu â rheoli ein ffrydiau incwm yn effeithiol				✓
Enw da (5 adolygiad)	RS/01 - Disgwyliadau cwsmeriaid: Rydym yn methu â chyflawni diben y Grŵp i'r cwsmeriaid a'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu		✓		
	RS/02 - Statws fel cyflogwr: Rydym yn methu â denu a chadw'r aelodau cywir o dimau a'r partneriaid cywir mewn cadwynau cyflenwi		✓		
	RS/07 - Rheoli ymgysylltu: Rydym yn methu ag ymdrin â phroblemau ein cwsmeriaid a'n cymunedau yn effeithiol		✓		
	RS/08 - Ansawdd gwasanaethau: Rydym yn methu â darparu'r lefelau cywir o wasanaeth neu gynnyrch	✓			✓
Perfformiad (2 adolygiad)	RS/15 - Rheoli perfformiad: Rydym yn methu â deall ein perfformiad				✓
	RS/16 - Rheoli gwelliant: Rydym yn methu â chyflawni gwelliant effeithiol				✓





Mae'r Pwyllgor yn cael y wybodaeth ganlynol ym mhob un o'i gyfarfodydd:


- Crynodeb o bob risg strategol a gaiff ei hadolygu, a statws y risg
- Manylion unrhyw brofion trydydd parti a gynhaliwyd ar y risgiau strategol a gaiff eu hadolygu
- Unrhyw risgiau ychwanegol a nodwyd yn ystod y chwarter hwnnw
- Asesiad manwl o bob risg strategol a gaiff ei hadolygu

Bob blwyddyn, mae'r Pwyllgor Sicrwydd yn cynnig y canlynol i'r Byrddau:

- Yr anghenion o ran fframwaith rheoli ar gyfer y Grŵp
- Y profion y mae angen eu cynnal i benderfynu a allwn gael sicrwydd ein bod yn rheoli ein risgiau
- Barn y tîm archwilio mewnol ar gyfer y Grŵp

Crynodeb

Mae dull cynhwysfawr wedi'i fabwysiadu er mwyn adnabod a rheoli ein risgiau strategol a gweithredol ar draws y Grŵp. Rydym hefyd wedi ceisio rhoi prawf ar y systemau rheoli hynny i weld ble y gallwn wella ein dull o weithredu.



■ SR2 – BLWYDDYN ARIANNOL 23/24

GWIRIO'R GWERTHUSIAD

“Mae trefniadau cadarn ar waith i
reoli risg a rhoi sicrwydd”

Rydym wedi llunio'r gwerthusiad canlynol:

Mae ein Bwrdd wedi adolygu ein dadansoddiad a'n tystiolaeth ac mae o'r farn ein bod yn cydymffurfio â'r safon hon ar gyfer perfformiad.

	Gwirio'r Gwerthusiad	Mae'r Bwrdd:
1	A yw'r Bwrdd yn gwybod ei fod yn cyrraedd y safon hon	Wedi dod i'r casgliad bod Fframwaith Sicrwydd y Grŵp, #5 Rhoi sicrwydd, yn rhoi prawf ar b'un a ydym yn gweithredu'r egwyddorion a nodir yn ein Gweledigaeth, yn nodi'r risgiau strategol a fydd yn ein hatal rhag gwireddu ein Gweledigaeth ac yn egluro sut beth yw da i ateb. Dan ein fframwaith, rydym wedi nodi bod gan y Grŵp 16 o risgiau strategol sy'n ymwneud â chydymffurfio, arian, perfformiad ac enw da. Drwy gydol y flwyddyn, rydym yn cynnal adolygiadau o'r risgiau hyn, sy'n cynnwys rhoi prawf ar y systemau rheoli a thrafod materion allanol a mewnol, sy'n cynnwys unrhyw risgiau gweithredol uwch ac unrhyw fesurau lliniaru newydd sy'n angenrheidiol er mwyn rhoi sicrwydd i Bwyllgor Sicrwydd ein Grŵp ac i'n Byrddau bod y risgiau strategol yn cael eu rheoli'n effeithiol.
2	Beth oedd y brif dystiolaeth a ddefnyddiwyd i werthuso'r safon hon	Wedi dod i'r casgliad bod y canlynol yn tystio i'r safon hon: • Y fframwaith rhoi sicrwydd • Yr adroddiadau rhoi sicrwydd bob chwarter • Y Gofrestr Digwyddiadau sy'n Achos Risg • Gwaith archwilio mewnol ac adroddiadau arbenigol eraill ynghylch ansawdd/archwilio • Barn y tîm archwilio mewnol • Dadansoddiad o risgiau'r sector 2022 – wedi'i fapio yn erbyn y fframwaith rhoi sicrwydd • Data a gwybodaeth am berfformiad • Y fframwaith polisi – yn enwedig o ran iechyd a diogelwch; diogelu data; a systemau rheoli polisi sy'n ymwneud â landlordiaid • Y cynllun parhad busnes • Y cynllun adfer ariannol • Ysgogwyr lliniaru risg
3	A oes Cynllun Gwella ar gael	Wedi sicrhau bod ein Cynllun Gwella yn cynnwys y camau gwella canlynol ar gyfer blwyddyn ariannol 24/25: • Adolygu ein risgiau strategol er mwyn paratoi i lansio ein cynllun strategol newydd ym mlwyddyn ariannol 24/25

Crynhoi'r Hunanwerthusiad o Lywodraethu ar gyfer Blwyddyn Ariannol 23/24

Mae rheoli llywodraethu yn bwysig

Fel y mae David wedi egluro, bu'n flwyddyn brysur i'n swyddogaeth llywodraethu, ond rwy'n gobeithio y gallwch weld o'r hunanwerthusiad hwn ein bod wedi medru rheoli ystod eang o amgylchiadau ar draws y Grŵp.

Mae'r amgylchedd gweithredu a rheoleiddio wedi esgor ar lawer o amgylchiadau sydd wedi rhoi prawf ar drefniadau llywodraethu, o ddiogelwch adeiladau i waith monitro metrigau ariannol. Rydym wedi defnyddio gweithgorau o'r Byrddau yn llwyddiannus i'n cynorthwyo i gyrraedd pen draw y broses gwneud penderfyniadau. Gallwch weld o'r gwerthusiad yr ystod o ddulliau yr ydym wedi'u defnyddio i roi prawf ar b'un a ydym yn bodloni'r safonau rheoleiddio, ond nid yw hynny'n golygu nad ydym bob amser yn ceisio gwella'r hyn a wnawn.

Yn ystod blwyddyn ariannol 24/25, rydym wedi bod yn adrodd yn ffurfiol ynghylch ymchwiliadau'n ymwneud â lleithder a llwydni i'r prif Fwrdd ac i Lywodraeth Cymru. Yn gyffredinol, mae ein cartrefi wedi'u hinswleiddio yn dda ac maent yn cael eu hawyru er mwyn atal problemau. Fodd bynnag, ceir achosion lle mae angen i ni ddeall mwy a gweithredu, boed drwy osod systemau monitro, gwneud newidiadau ffisegol neu ddefnyddio pecynnau ategol eraill sydd ar gael i ni.

Rydym wedi gweld nifer yr adroddiadau ar draws y flwyddyn yn lleihau'n araf bach, ond mae yna fwy o waith i'w wneud o hyd, yn enwedig ar rai o'n tai hŷn.

Rydym wedi cydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru i sicrhau bod ein cartrefi i gyd yn ddiogel rhag tân. Roedd hynny'n golygu buddsoddi mewn rhai mesurau ychwanegol ac ailasesu ein trefniadau arolygu a'n dulliau o gofnodi data. Bydd iechyd a diogelwch bob amser yn flaenoriaeth allweddol o ran llywodraethu i'r Byrddau a'r Pwyllgorau.

Mae'r gwaith o ymgorffori llais ein cwsmeriaid yn ein systemau llywodraethu yn gwella, ac mae mwy o welliant i ddod. Bydd ein menter Ymgysylltu i Wella, lle mae ein cwsmeriaid yn pennu ac yn blaenoriaethu'r meysydd ar gyfer gwella, yn sylfaen ar gyfer her fwy i'r Grŵp yn gyffredinol. O gynnwys ein cwsmeriaid yn well, byddwn mewn sefyllfa well i gyflawni'r 'canlyniadau iawn i gwsmeriaid, mor effeithiol ag y gallwn'.

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi pwysleisio pwysigrwydd gwneud y penderfyniadau iawn ynghylch y ffordd orau o reoli adnoddau a risg ar draws y Grŵp. Hoffwn ddiolch i'n Bwrdd a'n Pwyllgorau ac i'r timau arwain a llywodraethu sy'n eu cynorthwyo - diolch.

Nick Hampshire Prif Weithredwr



ateb

**Bywgraffiadau
Aelodau'r Bwrdd /
Cyfarwyddwyr**

**Creu atebion
gwell o ran byw**



David Birch

Mae gan **David** brofiad helaeth o weithio yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus. Dechreuodd ar ei yrfa fel Drafftmon Peirianeg Drydanol cyn symud i weithio fel Rheolwr Cyfleusterau gyda BT gan ennill cymhwyster ôl-raddedig mewn Astudiaethau Rheoli. Ymunodd David â'r GIG yn 1994 fel Cyfarwyddwr Cyfleusterau yng Ngwent cyn ymgymryd â swydd y Pennaeth Gwasanaethau Contractau ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach. Yn 2004 cafodd ei benodi'n Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymorth i Fwrdd Iechyd Addysgu Powys, a phenderfynodd ymddeol yn 2010. Mae gan David brofiad o weithio yn y sector tai, oherwydd bu'n Is-gadeirydd ac yna'n Gadeirydd cymdeithas dai yng Nghaerdydd am 6 blynedd cyn ymuno ag ateb.



Hugh Watchman

Mae **Hugh** yn rheolwr profiadol ar lefel Bwrdd ar ôl iddo fod yn gweithio ar lefel strategol yn rhwngwladol gyda rhai o gwmnïau mawr rhagorol y FTSE 100 mewn meysydd allweddol megis Gwerthu, Marchnata, TG, Caffael a Logisteg.

Mae gan Hugh gymhwyster ôl-raddedig ac arferai fod yn swyddog â chomisiwn yn y fyddin. Bu'n gwasanaethu ym myddin Awstralia ac ym myddin Prydain.



Sharron Lusher

Mae gan **Sharron** brofiad helaeth o weithio ar lefel strategol ar gyfer darparwr mwyaf Sir Benfro ym maes addysg ôl-16. Roedd Sharron yn Bennaeth Coleg Sir Benfro o 2012 i 2018. Ers iddi ymddeol, mae wedi parhau i chwarae rhan weithredol ym maes addysg a hyfforddiant yng Nghymru, ac ar hyn o bryd mae'n gadeirydd Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru a'r Bwrdd Adolygu Cymwysterau Galwedigaethol yng Nghymru.



Jackie Leonard

Mae **Jackie** yn ymgynghorydd, ac mae'n gweithio yn y sector tai ers dros 20 mlynedd fel Cyfarwyddwr. Mae arbenigedd a sgiliau Jackie wedi'u defnyddio mewn amryw rolau gwasanaeth ar draws y sector, a hynny ym maes cynllunio, rheoli cyllidebau, rheoli contractau a darparu gwasanaethau.



Owen Jones

Mae **Owen** yn gyfarwyddwr ymgynghoriaeth annibynnol ym maes cynllunio trefol, sy'n gweithredu yng Nghymru a Lloegr. Mae ganddo brofiad helaeth o weithio ym maes cynllunio a datblygu, ac mae'n Gynllunydd Trefol Siartredig ac yn Aelod o'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol.

Mae gwaith Owen ar hyn o bryd yn ymwneud â gweithio gyda thirfeddianwyr a datblygwyr preifat ar ystod o gynlluniau datblygu strategol sy'n cynnwys safleoedd o bwys ar gyfer datblygiadau defnydd cymysg; hyrwyddo cynlluniau datblygu; ymdrin â cheisiadau cynllunio; cynnal Asesiadau o Effeithiau Amgylcheddol; ac ymdrin ag ymholiadau gan y cyhoedd. Mae gan Owen radd MSc mewn Datblygu Eiddo Preswyl. Mae Owen hefyd yn Ymarferydd sy'n Aelod o'r Sefydliad Rheoli ac Asesu Amgylcheddol.



Jade Francis

Mae **Jade** yn Frocer/Rheolwr Morgeisi Annibynnol yn Willcox Financial Limited ac mae wedi treulio'r rhan fwyaf o'i gyrfa yn gweithio fel uwch-swyddog yn y sector bancio. Mae gan Jade brofiad helaeth o ddarparu cyngor ariannol i gleientiaid ac mae ganddi Ddiploma mewn Cyflawni Busnes ym maes Bancio Manwerthol.



Anthony James

Mae **Anthony** yn Uwch-reolwr Cyllid gyda Llywodraeth Cymru. Mae ganddo dros 15 mlynedd o brofiad o weithio yn y maes ariannol ar ôl dal swyddi yn y diwydiant deunyddiau a'r diwydiant adeiladu ac ennill profiad ymarferol cyn hynny o ymwneud â'r sector corfforaethol, gwaith archwilio, unig fasnachwyr, partneriaethau, datblygu busnes, a threthi. Mae Anthony yn un o Gymrodryr Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig.



Nick Hampshire

Mae **Nick** wedi bod yn gweithio i gymdeithasau tai ers dros 25 mlynedd, mewn swyddi ym maes datblygu eiddo a buddsoddi yng Nghymru a Lloegr cyn ymgymryd â'r swydd hon. Mae Nick yn awyddus i wella ac ehangu gwasanaethau ateb i gwsmeriaid, drwy rymuso a datblygu timau gwyb a gefnogir gan drefniadau cydweithio cadarn â chwsmeriaid a phartneriaid ateb a'r cymunedau ehangach y mae ateb yn eu gwasanaethu.



Julia Ashley

Mae **Julia** yn Gyfarwyddwr Datblygu Busnes i grŵp tai yn Lloegr. Mae ganddi dros 25 mlynedd o brofiad o weithio fel Cyfarwyddwr Gweithredol a Phrif Weithredwr, a llawer o brofiad o weithio ym maes strategaeth, rheoli newid, gwasanaethau tai, datblygu a gofal.



Nisha Harichandran

Mae **Nisha** yn berchen ar fusnes Bohem Notes, sef platfform cyfathrebu'n ymwneud â lles, ac mae hefyd yn Arbenigwr Cyfathrebu i asiantaeth gymorth sy'n ceisio atal troseddau ariannol. Mae ganddi gefndir amrywiol – bu'n Gyfarwyddwr Llywodraethu cwmni telathrebu mawr yn Asia ac mae hefyd yn fargyfreithiwr cymwys yn y DU ac India.



Chris Townsend

Mae **Chris** yn Uwch-gyfarwyddwr Adnoddau Dynol sydd â phrofiad cynhwysfawr o weithio ar draws ystod eang o sectorau sy'n cynnwys y cyfryngau a thechnoleg, gweithgynhyrchu, a gwasanaethau a chyfleusterau a ddarperir gan gyflenwyr allanol, a hynny yn y DU, yng Ngogledd Ewrop ac yn y Dwyrain Canol. Mae Chris hefyd yn un o fentoriaid y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu lle mae'n darparu cymorth i bobl sy'n awyddus i fod yn Gyfarwyddwyr Adnoddau Dynol.

MILL BAY
HOMES

Bywgraffiadau Aelodau'r Bwrdd / Cyfarwyddwyr



Mike Westerman

Mae **Mike** yn Gadeirydd profiadol â hanes amlwg o gyflawni, ar ôl gweithredu'n llwyddiannus ar lefel Bwrdd yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol. Mae gan Mike ddiddordeb arbennig ym maes tai ac mae wedi bod yn mentora ac yn cynghori Shelter, Canolfan Cardinal Hume a CHAS. Helpodd i greu'r elusen ryngwladol ActionAid ac mae'n parhau i weithio fel ymgynghorydd i'r sector gwirfoddol a'r sector busnes. Mae Mike yn un o Gymrodryr y Sefydliad Data a Marchnata ac mae ganddo'r cymwysterau canlynol: MinstF, ISP Mem Dip.



Alex Jenkins

Mae **Alex** yn un o Gymrodryr Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr. Mae ganddo radd BSc dosbarth cyntaf mewn Mathemateg o Brifysgol Bryste. Cyn ymuno ag ateb, bu Alex yn dal nifer o swyddi uwch ym maes cyllid ac yn gweithio mewn amrywiaeth o sectorau megis y sector adeiladu a'r sector cynhyrchu bwyd. Cafodd ei hyfforddiant a dechreuodd ar ei yrfa yn Arthur Anderson, sef cwmni ymgynghori rhyngwladol ym maes archwilio a chynghori, lle'r enillodd ei gymhwyster proffesiynol a'i brofiad o archwilio.



Nick Hampshire

Mae **Nick** yn Brif Weithredwr Grŵp ateb, yn aelod o Fwrdd ateb Group Limited ac yn Gyfarwyddwr EBS (sy'n endid anweithredol o fewn y Grŵp). Mae bywgraffiad llawn Nick i'w weld yn y rhestr o aelodau Bwrdd Grŵp ateb.



Andrea Gardner

Andrea yw sylfaenydd a Chyfarwyddwr Two Can Properties & Estates. Mae ganddi dros 25 mlynedd o brofiad o weithio ym maes datblygu eiddo a gwerthu eiddo preswyl, o fod yn Swyddog Gwerthu i fod yn Gyfarwyddwr. Mae Andrea yn frwdfrydig ynghylch cynorthwyo adeiladwyr bach a chanolig eu maint i werthu cartrefi'n unol â chodau defnyddwyr, sy'n fodd i'w diogelu nhw a diogelu eu cleientiaid.




Nick Christofides

Mae **Nick** yn Gyfarwyddwr The Greenroom Estate Agency. Mae ganddo dros 20 mlynedd o brofiad o weithio ym maes datblygu eiddo a gwerthu eiddo preswyl. Mae profiad Nick yn ymestyn o brynu tir ar gyfer datblygwyr eiddo i reoli prosiectau gwerth miliynau o bunnoedd, gwerthu cartrefi a darparu cyngor arbenigol i ddatblygwyr ar draws y rhanbarth



Tim Richens

Mae **Tim** yn Rheolwr Gyfarwyddwr Grŵp Aequus, sef cwmni y mae awdurdod lleol yn berchen yn gyfan gwbl arno, sy'n datblygu, yn darparu ac yn rheoli eiddo ar gyfer y farchnad rhentu a'r farchnad gwerthu preifat. Mae gan Tim brofiad helaeth o weithio ar lefel strategol yn arwain cynlluniau busnes, prosiectau mawr a rhaglenni trawsnewid.





West Wales Care & Repair
Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru

Bywgraffiadau Aelodau'r Bwrdd / Cyfarwyddwyr





Elaine Lorton

Mae **Elaine** yn Gyfarwyddwr Gwasanaeth ar gyfer Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, ac mae ganddi dros 20 mlynedd o brofiad o weithio yn y sector iechyd, y sector cymdeithasol a'r sector dielw. Mae ymgysylltu â staff, rhanddeiliaid a'r cyhoedd yn bwysig i Elaine, er mwyn galluogi a datblygu gwelliant cynaliadwy a pharhaus mewn ansawdd a chynhyrchiant.



Luke Lenton

Luke yw Rheolwr Cwynion y Bwrdd Iechyd rhanbarthol. Mae wedi bod yn gweithio ym maes tai, gofal cymdeithasol ac iechyd yn ystod y 18 mlynedd diwethaf gan feithrin arbenigedd ym maes gwasanaeth i gwsmeriaid, rheoli busnes a datrys cwynion. Mae gan Luke gymhwyster ôl-raddedig mewn rheoli, ac fel hyfforddwr cymwys mae'n parhau i helpu i ddatblygu rheolwyr eraill mewn gwasanaethau yn y sector cyhoeddus.



Avril Wilson

Mae **Avril** wedi bod yn gweithio yn y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol. Cafodd hyfforddiant i fod yn gyfreithiwr, cyn mynd i faes llywodraeth leol i weithio fel Rheolwr Tai. Yn fwy diweddar, mae wedi bod yn gweithio fel Cyfarwyddwr Gweithredol ym maes gwasanaethau oedolion a phlant, gan ganolbwyntio ar newid systemau.



Jackie Leonard

Mae **Jackie** yn aelod o Fwrdd Grŵp ateb a Bwrdd Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru. Mae bywgraffiad llawn Jackie i'w weld yn y rhestr o aelodau Bwrdd Grŵp ateb.



Cyng. Hugh Hughes

Cyngor Sir Ceredigion – Ward y Borth

Mae **Hugh** wedi ymddeol ar ôl bod yn gweithio fel Ditectif gyda Heddlu Dyffryn Tafwys. Mae ganddo gymhwyster MSc mewn Seicoleg Fforensig a Chyfreithiol.



Cyng. Matthew Vaux

Cyngor Sir Ceredigion – Ward Ceinwydd a Llanllwchaearn

Mae **Matthew** yn aelod cabinet penodedig ac mae ei bortffolio'n cynnwys tai, materion cyfreithiol a llywodraethu, pobl a threfniadaeth a diogelu'r cyhoedd.



Hugh Watchman

Yn ogystal â bod yn aelod o Fwrdd ateb Group Limited, mae **Hugh** hefyd yn aelod o Fwrdd Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru. Mae bywgraffiad llawn Hugh i'w weld yn y rhestr o aelodau Bwrdd Grŵp ateb.

Y Pwyllgor Sicrwydd

- Hugh Watchman
- Sharron Lusher
- Mike Westerman
- Anthony James
- Owen Jones
- Avril Wilson

Y Pwyllgor Datblygu

- Owen Jones
- Tim Richens
- Andrea Gardner
- Nick Hampshire
- Alex Jenkins

Y Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth Ariannol

- Chris Townsend
- Hugh Watchman
- Sharron Lusher

**Creu atebion
gwell o ran byw**